

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd dros y wê, Nos Fawrth, 9fed Mawrth 2021 am 7.00 o'r gloch.

Agenda

1. **Presenol:** Sian Dafydd (Cadair), Peter Bridges, Gareth Lloyd Jones – Talysarn; Dafydd Thomas – Nebo, Ffion Jones – Nantlle; Barry Bracegirdle, Heledd Gwilym, Dylan Herbert, Erfyl Williams – Penygroes; Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, O P Huws – Llanllyfni; Craig ab Iago a Judith Humphreys (ymddiheuro am fydd yn cyrraedd yn hwyrach) - Cynghorwyr Sir.

Ymddiheuriadau: Harry Wyn Owen – Talysarn, Justin Davies – Penygroes. Ni dderbynniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd, Talysarn.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes.

2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir**- Neb yn datgan.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 9fed Chwefror 2021** – Dafydd Thomas yn codi'r cywirdeb sydd angen ei wneud yn Pwynt 11 mai Craig Cwm Dulyn ddylsa hwn fod a nid Craig Cwm Silyn fel y cofnodwyd, a Pwynt 14 angen adio cwmni Nant i'r rhestr hwn – y clerch i gario allan y cywiro hwn. Cynnigiodd Dafydd Thomas ac eiliodd Peter Bridges a Hefina Roberts fod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd** -

Ymatebion Cyngor Gwynedd – Ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd ynglyn a'r lamp yn Talysarn nad yw yn gweithio a maent yn disgwyl ymateb gan Scottish Power ar pryd fydd y gwaith o'i thrwsio yn cael ei wneud. **Safle bws Penygroes** - Sian Dafydd yn adrodd fod Cyngor Gwynedd wedi archebu dau banel newydd ar gyfer y man aros bws yn Penygroes am gôst o £800, ond maent wedi adrodd wrth Sian mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned fydd y costau trwsio y manau ar ôl hyn. Gofynwyd y cwestiwn os yw y Cyngor Cymuned yn ymwybodol o hyn ac adroddodd O P Huws eu bod yn ymwybodol. **Man ail-gylchu Penygroes** Y clerch i ddrafftio llythyr yn unol ag adroddiad Peter Bridges o'r holiadur a gyrru copi i bawb ei weld cyn ei basio ymlaen i'r Cyngor. Peter Bridges wedi cael sgwrs gyda Mantell Gwynedd ynglŷn â'r nifer a oedd wedi ymateb i'r holiadur a mae y sŵm yn dda iawn meddai nhw. **Gwaghaus Gyliau Llanllyfni** – Holodd OP Huws os oedd ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â chael adroddiad o'r amseroedd roedd y gyliau wedi eu glanhau – nid oedd ymateb wedi dod i'r cais hwn, ond adroddodd Hefin Roberts fod y Cyngor wedi bod heddiw yn eu glanhau. **Tynnu corlenni Mynwent Gorffwysfa Llanllyfni** – OP Huws yn cynnig y dylid rhoi arwyddion i fyny i rybuddio y cyhoedd y bydd y corlenni yn cael eu tynnu, eiliodd Sian Dafydd y cynnig a cytunodd pawb. Cynnigiodd Gwyndaf Roberts y dylid cael pris am yr arwyddion i ddechrau – trafodwyd a cytunwyd os y buasai yr arwyddion yr un pris a'r rhai a roddwyd yn Mynwent Macpelah yna i gario ymlaen a'u archebu.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** – Roedd pawb wedi derbyn adroddiadau Judith Humphreys a Craig ab Iago ymlaen llaw i'r cyfarfod. Gan nad oedd Judith Humphreys wedi cyrraedd y cyfarfod eto rhoddwyd cyfle i holi Craig ab Iago am ei adroddiad a bu i Gwyndaf Roberts ei holi ynglŷn â'r farchnad dai a gofyn os oedd pobl ifanc yn cael eu amddifadu o brynu tai yn lleol gan fod pobl yn gwerthu eu tai i Gyngor Gwynedd. Esboniodd Craig nad cystadlu gyda'r bobl ifanc yw bwriad hyn ond mae y bobl sy'n gwerthu eu tai i'r cyngor eisiau iddynt fynd i bobl leol a dyna pam eu gwerthu iddynt. Hefyd dywedodd Gwyndaf Roberts bod angen edrych ar ganllawiau cynllunio gan fod pobl ifanc lleol yn cael eu gwrthod i adeiladu tai yn eu hardal a mae'r broses yn cymerud blynyddoedd i'w basio a nid yw hyn yn rhoi dim cyfle i bobl aros yn yr ardal. Cytunodd Craig gyda hyn a bod angen Deddf Gynllunio newydd. Holodd Dylan Herbert beth yw'r ymateb o gymunedau eraill i hyn a drafodwyd ac atebodd Craig fod y llywodraeth wedi gofyn am gyfarfod i drafod y 'Cynllun

Gweithredu Tai' i gael gwybod sut wnaethpwyd hyn a sut wnaethpwyd iddo weithio, felly mae hyn yn profi fod eu ymateb wedi bod yn bositif. OP Huws eisiau llongyfarch Cyngor Gwynedd am wneud y gwaith hyn ag am y camau positif.

6. Taflen ariannol a chyllid - Copi o'r taflenni wedi eu gyrru i'r cyngorwyr dros e-bost ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfle i edrych drostynt. Cynnigiodd OP Huws y dylid neilltuo swm yn y gyllideb ar gyfer y safle bysiau, eilwyd hyn gan Sian Dafydd.

Trafodwyd fait y dylid ei neilltuo a cytunwyd ar £1500. Holodd OP Huws am farn Gareth Lloyd Jones ar y gyllideb ac adroddodd fod pethau i'w weld yn iawn a bydd angen cynnal cyfarfod is-bwyllgor cyllid mis nesaf i drafod cyllideb 2121/22. Esboniodd hefyd nad oedd llawer o wariant wedi bod eleni oherwydd y pandemic. Y clerch i drefnu cyfarfod at ddechrau Ebrill.

7. Cyfarfodydd is-bwyllgor / Cyfarfodydd yn ystod y mis – Tendir Gwaith Mynwent Macpelah – adroddodd OP Huws fod y tendr nawr yn barod i fynd allan a bod angen penderfynu sut mae am gael ei hysbysebu a faint o amser i roi i gwmnïau at pryd fydd ei angen yn nôl. Trafodwyd a penderfynwyd os yw yr hysbysebu yn mynd allan ar 15fed Mawrth yna ei dderbyn yn nôl erbyn 12fed Ebrill. Trafodwyd i'w hysbysebu ar y dudalen Facebook a gwefan Bro 360 a hefyd y dylsai ei fod yn cael ei hysbysebu ar brint yn y Caernarfon & Denbigh – y clerch i drefnu hyn. (*Cyrhaeddodd Cyng Judith Humphreys y cyfarfod 7.55yh*) **Ffatri Northwood** – OP Huws wedi bod mewn cyfarfod a newyddion calonogol fod yna ddiddordeb yn y safle. Nodwyd fod cyflogaeth yn bwysig ond rhaid gweld gyntaf pwy sydd gyda diddordeb. Diolchodd Sian Dafydd i OP Huws am ei adroddiad a hefyd am ei holl waith gyda Tendir Macpelah.

Rhoddydwyd cyfle yma i holi Cyng Judith Humphreys am ei adroddiad, ond nid oedd dim yn codi.

8. Cytundeb Pori Cae Macpelah - adroddodd y clerch fod y gytundeb bresennol yn dod i ben ar 31ain Mawrth ond bod angen penderfynu os mai ymestyn y contract yntau ei hysbysebu oedd y cyngor am wneud. Trafodwyd a penderfynwyd yn unfrydol mai ymestyn y gytundeb fuasai orau oherwydd y gwaith fydd yn mynd ymlaen yn y fynwent. Cynnigiodd OP Huws mai cytundeb pori yn unig ddylsa fod ac eiliodd Gwyndaf Roberts y cynnig. Cytunodd Sian Dafydd i addasu y gytundeb a penderfynwyd yn unfrydol i'w ymestyn am gyfnod o 3 mis hyd at 30 Mehefin 2021.

9. Goleuadau Nadolig – Adroddodd Gwyndfa Roberts fod y llythyrau wedi mynd allan i'r tai dan sylw i gyd a bod rhai wedi ymateb a cymerud fod y rhai nad ydynt wedi ymateb yn hapus fod y gwaith yn mynd i gael ei wneud. Cynnigiodd Sian Dafydd y dylid ail-lythyru y rhai oedd heb ymateb ond adroddodd Dylan Herbert ei fod yn dweud yn glir ar y llythyr fod angen ymateb erbyn amser penodol. Cynnigiodd Gwyndaf Roberts i'r contractwyr gario ymlaen gyda'r gwaith a cytunodd pawb gyda hyn. Goleuadau Llanllyfni – adroddodd Dylan Herbert ei fod yn gobeithio y bydd Cyngor Gwynedd yn dod i osod y bocsys yn barod yr wythnos yma. Diolchodd Sian Dafydd i Gwyndaf a Dylan am eu gwaith gyda hyn.

10. Sedd wag Ward Penygroes – Nid oedd enw wedi ei roi ymlaen felly cynnigiodd Heledd Gwilym y dylid ei hysbysebu yn lleol ar Facebook, gwefan y Cyngor Cymuned, gwefan Bro 360 ayyb, cytunodd pawb gyda hyn – y clerch i wneud hyn. Soniodd Judith Humphreys fod yna rai cymunedau yn rhedeg Cyngor Cymuned leuenctid sydd yn cyd-reddeg ar Cyngor Cymuned.

11. Materion Pentrefi – Penygroes – Barry Bracegirdle yn adrodd fod y tyllau ar Ffordd Yr Orsaf wrth fynedfa i fewn i Wynnstay wedi gwaethygu yn ddifrifol a'u bod yn beryglus erbyn hyn ac angen sylw brys – y clerch i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd eto am hyn. Hefyd adroddodd Barry fod ffens tu ôl i Trem Y Wyddfa wedi cael ei thorri (rhywun wedi tynnu postyn) ag ar y pen arall mae bolard sydd yn stopio ceir rhag mynd at y bont gerdded wedi ei dorri ar ddau fater angen sylw brys – cytunodd Judith i edrych fewn i'r ffens a'r clerch i gysylltu gyda'r cyngor am y bolard. Adroddwyd fod fan wen yn cael ei pharcio hanner ar y palmant a hanner ar y ffordd yn y Stryd Fawr sydd yn achosi problem ac mae yn beryglus –

cytunodd Judith Humphreys i gael gair gyda Mark Holland am y mater. Dylan Herbert yn adrodd fod yna ambell fater gan yr heddlu wedi bod yn Benygroes yn ddiweddar (3 cyrch cyffuriau) a bod hyn yn bositif fod rhywbeth yn cael ei wneud am broblemau sydd yn codi yno. **Llanllyfni** – Hefina Roberts yn adrodd fod baw ci yn ofnadwy ymhob man yn ddiweddar. Holodd os oedd posib trefnu i gael bin baw ci ar hyd Lôn Ddŵr – y clerc i wneud ymholiad am hyn a copio Craig i fewn i'r ebost. Adroddodd Gwyndaf Roberts fod dŵr yn casglu ar waelod Lôn Tyddyn Agnes / Lôn Ddŵr gan fod gyli wedi blocio – adroddodd Craig ab Iago ei fod wedi adrodd am hyn i Cyngor Gwynedd yn barod. OP Huws yn adrodd ei fod wedi clywed fod Craig ab Iago wedi gwneud cais i ledaenu y man parcio ar waelod Lôn Ddŵr er mwyn gwneud mwy o fannau parcio – cynnigiodd OP Huws fod y Cyngor Cymuned yn gyrru llythyr i Craig i gefnogi ei gais – cytunodd pawb yn unfrydol i hyn, ar clerc i yrru llythyr. **Talysarn** – Adroddodd Gareth Lloyd Jones fod twll wedi ymddangos yn y ffordd ar Lôn Yr Eglwys a hefyd wrth Coed Madog ac adroddodd Peter Bridges fod cyflwr Ffordd Bryn Celyn yn ddifrifol ag angen sylw – y clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. Hefyd adroddodd Peter Bridges fod y paent ar y twmpathau cyflymder wedi gwisgo i ffwrdd sydd yn gwneud hi yn anodd bellach i wedi lle mae'r twmpathau – y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor am hyn. Sian Dafydd wedi derbyn cwynion am sbwriel sydd yn cael eu llechio ar y llwybr sydd yn mynd o amgylch y cae pel-droed a'r trac BMX – adroddodd fod criw o bobl o'r gymuned wedi cytuno i fynd i gasglu y sbwriel ond eisiau gwybod lle fuasai posib cael menthyg codwyr sbwriel? Dywedodd Peter Bridges fod yna bobl yn Talysarn sydd yn mynd o gwmpas i godi sbwriel – Sian am eu holi i weld os fuasai modd methyg offer ganddynt. Dywedodd Judith Humphreys fod 'Cadwch Cymru'n Daclus' yn rhoi methyg offer hefyd. **Nebo** – Diolchodd Dafydd Thomas i Craig ab Iago am gael yr offer casglu sbwriel i'r ardal a hefyd adroddodd fod y Pwyllgor Ardal wedi cael grant i roi hadau blodau gwyllt i bob tŷ yn yr ardal. Adroddodd Dafydd hefyd fod llwybr rhif 113 o dan ddŵr – y clerc i gysylltu gyda'r cyngor a'r Parc Cenedlaethol am hyn. Da gweld fod y cerrig wedi symud o'r ffordd ond nid yw'r wal wedi ei thrwsio – y clerc i wneud ymholiadau am hyn. **Nantlle** – Wal (ger tŷ Ffion) wedi ei tharo ag i weld yn beryglus – y clerc i gysylltu gyda'r cyngor am hyn ar ôl derbyn lluniau gan Ffion Jones. Holodd Ffion Craig ab Iago os oedd yna unrhyw ddiweddariad gyda'r gor-yrru – yn anffodus na oedd yr ymateb.

12. Ceisiadau Cynllunio –

C21/0040/22/LL – Shed dail amaethyddol Cefn Lluar, Llanllyfni – adroddwyd fod hwn ym Mhlwyf Clynnog Fawr, ond nid oedd dim gwrthwynebiad.

C21/0158/22/LL – Sied amaethyddol aml bwrpas yn Hyfrydle, Talysarn – dim gwrthwynebiad, ond y clerc i nodi y buasai cael arwyddion Traffic Fferm yn syniad da yn y ffordd ger y man yma.

NP3/22/98 – Dymchwel adeilad allanol unllawr a codi estyniad deulawr ar yr ochr Blaen y Garth, Nantlle – dim gwrthwynebiad.

13. Gohebiaeth – E-bost wedi ei dderbyn ynglŷn â 'Enweibiaeth Treftadaeth Byd Llechi Cymru a Dorothea' yn gofyn os oes posib trefnu cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned i drafod. Trafodwyd y cais a penderfynwyd y buasai yn well trefnu cyfarfod arbennig ar gyfer hyn gan eu bod yn meddwl y gallai fod yn awr o gyfarfod. Y clerc i ofyn wrthynt am ddyddiadau. Roedd y clerc wedi gyrru pob gohebiaeth arall ymlaen i'r cynghorwyr ymlaen llaw iddynt edrych drostynt ond nid oedd dim yn codi.

14. Llwybrau a Mynwentydd – Sian Dafydd wedi derbyn adroddiad gan Harry Owen i ddweud bod y mynwentydd yn daclus a fod y gwair yn iawn yno. Adroddodd fod un carreg fedd wedi disgyn ym Mynwent Macpelah a bod Harry Owen wedi cynnig y dylid cael rhywun yno i asesu cyflwr y cerrig beddi – y clerc i drefnu hyn. Adroddodd Gwyndaf Roberts fod y tap dŵr a oedd wedi bod yn gollwng ym Mynwent Sant Rhedyw wedi ei sortio. Adroddodd Gwyndaf Roberts nad yw yn amser nawr i dorri y coed celyn yn y fynwent ag mai yr Hydref yw'r amser i wneud y gwaith. Felly mynd yn nôl at y cwmnïau yn nes at yr amser am brisiau fuasai orau. OP Huws yn cynnig y dylid talu yr anfoneb gan y contractwyr ond bod llythyr a

ffurflen yn cael ei amgau yn dweud wrthynt beth sydd ei angen a bod yn bwysig fod hyn yn cael ei wneud o hyn ymlaen. Cytunodd pawb yn unfrydol gyda hyn.

15. Materion ariannol -

- Nia Jones - £25.00 Ffôn a rhyngrwyd Mawrth 2021 – cytunwyd
- Nia Jones - £14.39 Zoom Mawrth 2021 - cytunwyd
- Yswiriant blynyddol £1373.69 (dod i ben 23 Ebrill 2021) – cytunwyd.